

# Cymdeithas sy'n gofalu

*“Oherwydd y mae Macedonia ac Achaia wedi gweld yn dda gyfrannu i gronfa ar ran y tlodion ymhlith y saint yn Jerwsalem.” (adn. 26)*

## Beth am ddarllen Rhufeiniaid 15:14–33 ac yna myfyrio

Mae yna elfen arall y dylid ei chynnwys, wrth ddiwygio'r Eglwys yn yr unfed ganrif ar hugain, oedd yn amlwg iawn ym mywyd eglwys Antiochia – eu gofal dros eraill. Roedd eglwys Antiochia yn eglwys ofalus. Pan glywyd am y newyn mawr oedd i ddod yn Jerwsalem ac yn y byd Rhufeinig, penderfynodd yr eglwys yn Antiochia anfon cymorth i'r Cristnogion oedd yn byw yn Jwdea, pob un yn ôl ei allu (Actau 11:29). Dyma osod safon glir ar gyfer eu rhoddion. Os oedd ganddynt lawer, yr oeddynt yn rhoi llawer. Cynhaliwyd y safon yma drwy eu cyfrannu, oherwydd fe welwn o'r testun heddiw fod y credinwyr ym Macedonia ac Achaia wedi parhau i ddanfôn cymorth i'r saint yn Jerwsalem.

Roedd y penderfyniad i helpu Cristnogion Jerwsalem yn un pwysig i'r eglwys ifanc yma. Beth petai'r eglwys wedi anfon gair o gydymdeimlad atynt? Mae'n siŵr y buasai hynny wedi bod o gysur, ond ni fyddai'r credinwyr hyn wedi gwneud yr oll ag y gallent. Dyma'r gair yn aros yn air, gair o gydymdeimlad a dim byd mwy. Mae'n siŵr y gellid cyhuddo Cristnogion yn aml o arddangos ewylllys da yn hytrach na gweithredu ewylllys da. Mae'n ardderchog i weld y gweithredu oedd yn eu nodweddu, pob un yn rhoi yn ôl ei allu. Nid dim ond casgliad oedd hwn, ond polisi ystyrion.

Rwyf yn hoff o'r pwyslais yn yr Ysgrythur sydd yn nodi fod y Cristnogion yn Antiochia wedi penderfynu i gynorthwyo cyd-gredinwyr yn Jwdea. Mae'n siŵr eu bod wedi trafod y mater (ac rydym yn gwybod fod trafod yn medru bod yn ffordd dda o beidio gwneud dim byd); ond, dyma'r rhain yn trafod a phenderfynu. Nid pobl oedd yn oedi ond pobl oedd yn gweithredu, cymdeithas oedd yn gofalu mewn gwirionedd. Dywedodd un beirniad unwaith: “Mae'r Eglwys Gristnogol yn fwy cartrefol yn trafod nag yn penderfynu.” Er efallai nad yw hyn yn wir ymhob amgylchiad, mae yna ddigon o wirionedd yn yr ymadrodd i beri gofid i ni.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 25:31–46; Actau 9:36–42; 1 Tim. 5:9–10

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Ym mha ffordd y mae bywyd Dorcas yn esiampl o un oedd yn gofalu fel Cristion?
2. Sut medrwch chi ofalu?

## Gweddi

Maddau i ni, O Dad, ein bod yn aml yn credu fod trafod rhywbeth yn ddigonol. Cynorthwya ni i ddilyn esiampl y credinwyr yn Antiochia wnaeth drafod, penderfynu ac yna gweithredu. Gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist. Amen.